Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cais i gofrestru fel prynwr neu werthwr pysgod gwerthiant cyntaf (gan gynnwys pysgod cregyn a chimychiaid Norwy) yn y Deyrnas Unedig

llyw.cymru

Llywodraeth Cymru
Suite 3, Cedar Court
Parc Busnes Havens Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS

**Ffôn:** 03000 253500

**Ffacs:** 01646 400540

**E-bost:** milfordhavenfisheriesoffice@gov.wales

## Llenwi'r ffurflen hon

- Llenwch gais **ar wahân** ar gyfer **pob** unigolyn, partneriaeth, cwmni a chorff corfforedig.
- Rhowch o leiaf 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais ein cyrraedd i ni ei ystyried.
- Printiwch y ffurflen a llenwch y meysydd perthnasol mewn **PRIF LYTHRENNAU** ac **inc du**.
- Arwyddwch y ffurflen ac anfonwch hi i'r cyfeiriad uchod.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48168, ISBN digidol xxx-x-xxxxx-xxx-x
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Adran A: Ardal

1. Ym mha wlad/gwledydd rydych yn prynu a/neu'n gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf?:

☐ Yr Alban ☐ Lloegr ☐ Cymru ☐ Gogledd Iwerddon

Bydd pob gwlad yn ystyried pob cais ar wahân a bydd pob gwlad yn rhoi gwybod i chi ar wahân am ganlyniad eich cais.

2. Nodwch a ydych yn gwneud cais i gofrestru fel:

☐ **Prynwr** – rhywun (unigolyn, partneriaeth, cwmni neu gorff corfforedig) sy'n prynu'r pysgod gwerthiant cyntaf yn syth o'r cwch neu oddi wrth asiant (hynny yw, heb fidio mewn cystadleuaeth amdanynt oddi wrth werthwr cofrestredig ar safle ocsiwn dynodedig)

☐ **Gwerthwr** – masnachwr mewn ocsiwn (unigolyn, partneriaeth, cwmni neu gorff corfforedig) sy'n gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf trwy fidio mewn cystadleuaeth ar safle ocsiwn dynodedig yn y DU

☐ **Prynwr a gwerthwr**

3. Ticiwch y blwch/blychau priodol i ddangos ym mha sector(au) o'r diwydiant rydych chi'n gweithio:

☐ Gwely'r môr ☐ Pelagig ☐ Cimychiaid Norwy ☐ Pysgod Cregyn

Cwestiwn at ddiben casglu ystadegau yw hwn. Ni fydd yn effeithio ar sut y cewch eich cofrestru na'r math o bysgod rydych yn cael eu prynu a'u gwerthu.

## Adran B: Manylion yr ymgeisydd

1. Nodwch a ydych yn gofyn am gael eich cofrestru fel:

☐ unigolyn ☐ cwmni cyfyngedig neu bartneriaeth ☐ unig fasnachwr

arall (manylwch) ____________________

2. Manylion yr ymgeisydd:

Teitl ________ Enw cyntaf ____________ Cyfenw ____________

Dyddiad geni ____________

Enw'r cwmni (os oes un) ____________________

Rhif y cwmni (os oes un) ____________________

Rhif cofrestru TAW (os oes un) ____________________

### Profi pwy ydych chi

**Unigolion:** I brofi beth yw'ch enw, rhaid darparu ffotocopi o naill ai'ch pasbort cyfredol, trwydded yrru gyfredol y DU neu Ynys Manaw, datganiad banc o'r 3 mis diwethaf neu fil trydan/nwy/dŵr o'r 3 mis diwethaf (peidiwch â'i ddefnyddio i brofi'ch cyfeiriad hefyd).

**Cwmnïau:** Rhaid ichi ddarparu ffotocopi o'ch Tystysgrif Ymgorffori, rhestr o gyfarwyddwyr y cwmni a llythyr ar bapur y cwmni sy'n nodi pwy sy' wedi'i awdurdodi i lofnodi ar ran y cwmni gyda chopi o'r llofnod.

## 3. Cyfeiriad cofrestredig

Cyfeiriad post llawn (gan gynnwys cod post)

Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu)

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

## 4. Cyfeiriad masnachu

☐ Gweler y cyfeiriad cofrestredig

Cyfeiriad post llawn (gan gynnwys cod post)

Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu)

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

Os oes gennych fwy nag un cyfeiriad masnachu, rhowch y manylion ar dudalen ar wahân.

## 5. Prawf bod y cyfeiriad yn gywir: dogfennau derbyniol

I brofi bod y cyfeiriad cofrestredig neu'r cyfeiriad masnachu, neu'r ddau, yn gywir, rhaid darparu ffotocopi o naill ai'ch bil treth gyngor diweddaraf (neu ei gyfatebol) neu fil trydan/nwy/dŵr o'r 3 mis diwethaf (peidiwch â'i ddefnyddio os ydych wedi'i defnyddio i brofi'ch enw).

## 6. Y cyfeiriad lle bydd cofnodion prynu neu werthu pysgod yn cael eu cadw

Mae'n amod wrth gofrestru eich bod, fel prynwr neu werthwr, yn cadw cofnodion pob gwerthiant o bysgod gwerthiant cyntaf am 2 flynedd galendr. Rhaid dangos y cofnodion hyn pan fydd swyddog morol yn gofyn am gael eu gweld. Rhaid i bob unigolyn, partneriaeth, cwmni neu gorff corfforedig roi manylion pob cyfeiriad lle cedwir y cofnodion hyn.

Os nad ydych yn gallu rhoi cyfeiriad yn y DU, bydd angen i chi gyflwyno'r cofnodion i weinyddiaeth y bysgodfa berthnasol unwaith y flwyddyn ac o fewn 28 diwrnod i gais gan swyddog gorfodi morol am gael eu gweld.

### Ydy'r cyfeiriad hwn yr un peth â'ch un chi:

☐ cyfeiriad cofrestredig ☐ cyfeiriad masnachu

arall (manylwch isod)

Cyfeiriad post llawn (gan gynnwys cod deialu)

Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu)

## Adran C: Prif gyswllt gohebu

### Llenwch fanylion y cyswllt gohebu a'r cyswllt cyflwyno nodyn gwerthiant electronig (os yn gymwys)

Teitl Enw cyntaf Cyfenw

Enw'r cwmni

### Ydy'r cyfeiriad hwn yr un peth â'ch un chi:

☐ cyfeiriad cofrestredig ☐ cyfeiriad masnach

arall (manylwch isod)

Cyfeiriad post llawn (gan gynnwys cod post)

Rhif ffôn (gan gynnwys cod deialu)

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost
(gorfodol os ydych yn cofrestru ar gyfer ERS)

## Adran D: Nodyn gwerthu a Systemau Cofnodi Electronig (ERS)

Rhaid i brynwyr a gwerthwyr gyflwyno nodiadau gwerthu bob tro y prynir pysgod gwerthiant cyntaf. Os yw'ch trosiant o bysgod gwerthiant cyntaf yn fwy na £175,000 **rhaid cyflwyno'ch** cofnodion yn electronig trwy ERS y DU. Mae prynwyr a gwerthwyr sydd â throsiant o lai na £175,000 yn cael eu cynghori i gyflwyno'u nodiadau gwerthu'n electronig.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni i'ch cofrestru chi neu'ch cwmni gyda chyflenwr ein meddalwedd. Ar ôl eich cofrestru, byddwn yn e-bostio cyfrinair ac enw defnyddiwr at eich prif gyswllt.

1. Nodwch:

- ☐ hoffech gofrestru ar gyfer ERS ac mae'ch trosiant yn fwy na £175,000
- ☐ hoffech gofrestru ar gyfer ERS ac mae'ch trosiant yn llai na £175,000
- ☐ nid ydych am gofrestru ar gyfer ERS.

I fynd ar ERS ac i gael gwybod sut i gyflwyno'n electronig, ewch i https://fishhub.cefas.co.uk/.

## Adran E: Datganiad am y cyfleusterau a dulliau gweithredu

1. Rhowch ddatganiad byr am eich cyfleusterau a'ch dulliau gweithredu gan gynnwys:

- gwybodaeth ynghylch ble a phwy rydych yn prynu oddi wrtho – os nad ydych yn siŵr, nodwch ardal fras fel enw porthladd
- manylion y cychod rydych yn berchen arnynt neu'n eu rhedeg
- manylion y cyfleusterau storio, cludo a phrosesu fydd yn cael eu defnyddio
- manylion pwysau yn unol ag erthyglau 60 i 61 Rheoliad y Cyngor (CE) rhif 1224/2009

## Adran F: Datganiad ac ardystio

☐ Dw i ☐ Rydyn ni: (ticiwch)

- yn deall os na allaf/allwn roi cyfeiriad yn y DU lle mae cofnodion sy'n ymwneud â physgod gwerthiant cyntaf yn cael eu cadw, bydd yn rhaid i mi/ni gyflwyno cofnodion prynu pysgod gwerthiant cyntaf i'r adrannau pysgodfeydd bob blwyddyn, ac o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn cais gan swyddog gorfodi morol bob adeg arall
- yn deall bod yn rhaid i mi/ni roi gwybod yn ysgrifenedig i adrannau'r pysgodfeydd am unrhyw newid i'r wybodaeth a roddwyd wrth lenwi'r cais hwn o fewn 28 niwrnod ar ôl i'r newid hwnnw ddigwydd
- yn deall bod yn rhaid i mi/ni gyflwyno nodiadau gwerthu yn unol â'r cynllun hwn ac erthyglau 59 i 64 o Reoliad y Cyngor (CE) rhif 1224/2009
- am sicrhau mynediad dirwystr ar unrhyw adeg rhesymol i'r safle perthnasol i swyddog gorfodi morol a rhoi unrhyw gymorth y bernir sydd ei angen arno, gan gynnwys rhoi gwybodaeth a dogfennau am lanio, storio a gwerthu cynnyrch pysgodfeydd.

Ar gyfer cwmnïau cofrestredig a phartneriaethau: Rwy'n cadarnhau fy mod yn gyfarwyddwr ar y cwmni cyfyngedig neu'n bartner yn y bartneriaeth sy'n gwneud y cais hwn a'm bod wedi fy awdurdodi i wneud a llofnodi'r cais ar ran y cwmni neu'r bartneriaeth.

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Statws/Swydd | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

## Deddf Diogelu Data 2018

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn ym mhob mater sy'n ymwneud â phrosesu a storio gwybodaeth bersonol. LlC yw rheolydd y data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a roddwch pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen hon.

Bydd LlC yn rhannu'ch cais â gweinyddiaethau eraill pan fydd ceisiadau yn dod o fewn awdurdod y gweinyddiaethau hynny. Bydd eich enw, lleoliad a rhif cofrestru'r Cynllun Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefannau'r gweinyddiaethau.

Efallai y bydd yn rhaid i LlC, a gweinyddiaethau eraill, ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol a masnachol, ar gais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, ond ni fydd LlC yn caniatáu torri cyfrinachedd yn ddireswm neu bydd LlC yn gweithredu yn groes i'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Gall LlC ddefnyddio'ch manylion personol i gysylltu â chi am wasanaethau tebyg neu ymchwil i gwsmeriaid sydd â'r nod o wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

Os hoffech gael eich data personol oddi wrth weinyddiaeth, cysylltwch â:

- **Llywodraeth Cymru:** 03000 604400
- **Corff Rheoli'r Môr:** accesstoinformation@marinemanagement.org.uk, 0300 123 1032
- **Marine Scotland:** 08457 741 741
- **Department of Agriculture and Rural Development:** 02890 524 199

**For official use only**

| | | Date passed to | | Date approved by | |
|---|---|---|---|---|---|
| Date received | | MS | | MS | |
| Applicant notified | | MMO | | MMO | |
| Registration effective | | WG | | WG | |
| Registration number | | DARD | | DARD | |